Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A5 A'R A483 (CYLCHFAN HALTON, GER Y WAUN, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A5 a'r A483, neu gerllaw iddynt, ger Cylchfan Halton ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2016 ac yn parhau mewn grym hyd 06:00 o'r gloch ar 20 Mawrth 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau'r gwasanaethau brys a cherbydau ar gyfer y gwaith, rhag cael ei yrru ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn nodi unrhyw waharddiad o'r fath, a disgwylir mai am gyfnodau byr y byddant yn para, yn ôl yr angen. Ni fydd angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

iv. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

YR ATODLEN

1. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton i gyfeiriad y de am 250 o fetrau.
2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton i gyfeiriad y gorllewin am 250 o fetrau.
3. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Halton i gyfeiriad y gogledd am 250 o fetrau.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A5 AND A483 TRUNK ROADS (HALTON ROUNDABOUT, NEAR CHIRK, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS, propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary because works are being executed on or near the A5 and A483 trunk roads near Halton Roundabout in the County Borough of Wrexham.

The restrictions and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 20:00 hours on 7 March 2016 and remain in force until 06:00 hours on 20 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

i. Prohibit all vehicles, with exception for emergency services vehicles and works vehicles, from being driven in the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Notice. Any such prohibition will be indicated by advance traffic signs and are expected to be for short periods, as required. No diversionary routes will be necessary.

ii. Impose a 40 mph speed limit in the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Notice;

iii. Impose a 10 mph speed limit during convoy working in the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Notice;

iv. Prohibit all vehicles from overtaking during convoy working in the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Notice.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

SCHEDULE

1. The length of the A5 Trunk Road that extends from the centre-point of Halton Roundabout in a southerly direction for 250 metres.
2. The length of the A5 Trunk Road that extends from the centre-point of Halton Roundabout in a westerly direction for 250 metres.
3. The length of the A483 Trunk Road that extends from the centre-point of Halton Roundabout in a northerly direction for 250 metres.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE